



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bwrdd Rheoleiddiol Cymru

Adroddiad i'r Gweinidog
Tai a Llywodraeth Leol

Mai 2019



Cynnwys

Cyflwyniad i'r adroddiad gan Gadeirydd Bwrdd Rheoleiddiol Cymru	3
Crynodeb Gweithredol	4
Y Prif Adroddiad	6
Adran 1 Perfformiad a gweithgarwch y rheoleiddiwr	8
Adran 2 Datblygu'r fframwaith rheoleiddiol ac ymateb i heriau presennol	15
Adran 3 Perfformiad y sector	20
Adran 4 Datblygu Bwrdd Rheoleiddiol Cymru	22
Atodiad 1	23

Cyflwyniad i'r adroddiad gan Gadeirydd Bwrdd Rheoleiddiol Cymru

Ein cartrefi yw conglfaen ein bywydau, sy'n cynnig llwyfan ar gyfer iechyd da, llesiant a hapusrwydd, ac nid oes amheuaeth bod y gallu i gael cartref diogel a fforddiadwy o ansawdd da yn agor y drws i lawer o gyfleoedd mewn bywyd. Gall rôl rheoleiddio yn aml ymddangos yn bell i ffwrdd oddi wrth y rhethreg hon. Fodd bynnag, fel Cadeirydd Bwrdd Rheoleiddiol Cymru, rwy'n frwd dros y rôl y mae gweithgarwch rheoleiddio tai yn ei chwarae er mwyn helpu, galluogi ac annog y sector cymdeithasau tai i ffynnu.

Mae sector a reoleiddir yn dda yn rhoi sicrwydd i denantiaid, buddsoddwyr a rhanddeiliaid eraill ynglŷn ag ansawdd y cartrefi a ddarperir a chadernid cymdeithasau tai i ddarparu gwasanaethau gwych i denantiaid presennol a newydd.

Roedd y Bwrdd Rheoleiddiol, yn gywir ddigon, am i'r adroddiad hwn wneud mwy na rhoi cyngor i'r Gweinidog ar berfformiad ôl-syllol Cymdeithasau Tai yng Nghymru. Dyna pam nad ydym wedi osgoi tynnu sylw at rai o'r heriau sy'n ein hwynebu yn y dyfodol a'r trafodaethau sydd angen eu cynnal er mwyn atgyfnerthu'r trefniadau rheoleiddio a llywodraethu presennol ymhellach. Edrychaf ymlaen at fod yn rhan o'r trafodaethau hyn yn y dyfodol.

Hoffwn ddiolch i Aelodau'r Bwrdd Rheoleiddiol, y Grŵp Cyngori ar Reoleiddio a'r Tîm Rheoleiddio sydd wedi rhannu fy ngweledigaeth i sicrhau y gall gweithgarwch rheoleiddio chwarae mwy o rôl o ran darparu cartrefi fforddiadwy yng Nghymru. Hoffwn ddiolch hefyd i denantiaid a Chymdeithasau Tai sydd wedi ein croesawu, ac wedi rhannu'n frwdfrydig, nid yn unig y gwaith gwych sy'n cael ei wneud, ond hefyd yr heriau y maent yn eu hwynebu yn y dyfodol.

Helen White

Crynodeb Gweithredol

Mae'r Model Rheoleiddiol yn gweithio'n dda

- Mae'r model cyd-reoleiddiol presennol, a ategir gan ddyfarniadau rheoleiddiol blynyddol a dull hunanwerthuso cadarn, yn dal i fod yn fodel cadarn, priodol a modern ar gyfer y sector cymdeithasau tai. Mae'n sicrhau cydbwysedd cryf rhwng sicrwydd a gwelliant ac mae'n gyson â'r cyfeiriad cyffredinol ar gyfer gweithgarwch rheoleiddio, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Mae'r dull a'r ffocws rheoleiddio presennol yn ailennyn hyder y sector, benthycwyr a rhanddeiliaid eraill yn y fframwaith rheoleiddiol cyffredinol ac yn adfer hygrededd y fframwaith hwnnw. Ceir amrywiaeth eang o weithgareddau y bwriedir iddynt roi'r sicrwydd ffurfiol drwy'r dyfarniadau cyhoeddus sy'n ofynnol gan y fframwaith, ochr yn ochr â gwaith cymorth y sector lleol a'r sector cenedlaethol sy'n ymateb ac yn addasu i natur ddynamig barhaus y sector. Mae'n ymateb i argymhellion adolygiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ac mae'r fframwaith yn cael ei addasu'n gadarnhaol er mwyn ymateb i ffactorau allanol sylweddol megis penderfyniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol i ailddosbarthu cymdeithasau tai.

Mae perfformiad y sector yn galonogol, ond mae'n rhaid iddo wella

- Mae'r Fframwaith Rheoleiddiol yn cael ei ategu hefyd gan ymrwymiad i sicrhau bod tenantiaid wrth wraidd rheoleiddio. Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn dal yn ymrwymedig i wella'r ffordd y caiff hyn ei roi ar waith yn ymarferol ac yn cydnabod nad yw'r trefniadau presennol yn gwneud digon i fynd i'r afael â'r ymrwymiad hwn.
- Mae dyfarniadau rheoleiddiol hyd yma yn awgrymu bod gan y rhan fwyaf o'r sector drefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol effeithiol a'i fod yn hyfyw, ar y cyfan, a bod

ganddo drefniadau cadarn ar gyfer darparu gwasanaethau i denantiaid a defnyddwyr gwasanaethau.

- Erys gormod o achosion penodol o fethiannau sylweddol mewn trefniadau llywodraethu sydd wedi arwain at ymyrraeth ac amrywiaeth eang o ymwneud rheoleiddiol ychwanegol. Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru hefyd yn pryderu nad yw materion rheoleiddiol yn cael eu hunangofnodi a'u dwyn i sylw'r Rheoleidiwr yn gyson ym mhob rhan o'r Sector.
- Yn y dyfodol bydd angen i weithgarwch rheoleiddio ganolbwyntio'n gryf ar y materion llywodraethu hyn a thueddiadau eraill sy'n achosi pryder yn y sector. Bydd angen rhoi cymorth amserol i'r sector o hyd wrth iddo addasu ac ymateb i heriau allanol a'r amgylchedd polisi sy'n newid, yn enwedig wrth iddo addasu yn ôl yr angen i unrhyw newidiadau a goblygiadau rheoleiddiol sy'n deillio o'r argymhellion yn yr *Adolygiad o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy* yng Nghymru.

Mae angen adolygu adnoddau rheoleiddio ar frys

- Cred Bwrdd Rheoleiddiol Cymru fod adnoddau rheoleiddio islaw'r lefel ofynnol sydd ei hangen i barhau i gyflawni'r fframwaith presennol yn ddiogel ac addasu i anghenion a galwadau rheoleiddiol. Mae lefelau presennol y gweithgareddau craidd a lefelau ymyrraeth reoleiddiol yn llawer uwch nag a ragwelwyd erioed pan sefydlwyd y fframwaith a'r tîm rheoleiddio. Nid oes gan y Rheoleidiwr yr adnoddau i gyflawni rhai o'r swyddogaethau hyn yn yr hirdymor nac ymateb yn effeithiol i gefnogi cyfranogiad mewn ymyriadau na chymorth rheoleiddiol ychwanegol lle y bo'i angen mewn Cymdeithasau unigol. Mae'n amlwg bod hyn yn cynyddu'r risg y tansellir gwaith craidd ac y peryglir gallu'r Rheoleidiwr i nodi pryderon ynghylch llywodraethu a materion ariannol yn gyflym.

- Mae angen cynnal trafodaeth fwy sylfaenol nawr ynghylch natur, ffurf a gweithrediad y system reoleiddio yr hoffai Llywodraeth Cymru ei gweld, o bosibl, yn y dyfodol ac y byddai'n barod i ddarparu'r sgiliau a'r adnoddau angenrheidiol ar ei chyfer. Yn gynyddol, mae fframweithiau rheoleiddio modern yn cael yr adnoddau priodol nid yn unig i roi dyfarniadau rheoleiddiol, cyflwyno adroddiadau a chyflawni ymyriadau ond hefyd i gyflawni swyddogaethau cysylltiedig eraill.
- Cred Bwrdd Rheoleiddiol Cymru fod ganddo rôl i'w chwarae o ran ysgogi'r drafodaeth hon a fydd, o reidrwydd, yn arwain at drafodaeth genedlaethol ynghylch sut y gellid darparu adnoddau ar gyfer y model hwnnw o reoleiddio'r sector yn y dyfodol, gan gynnwys model sy'n seiliedig ar ffioedd.

Mae angen i'r broses o reoleiddio tai yng Nghymru adlewyrchu dulliau modern mewn rhannau eraill o'r DU

- Yn gysylltiedig â'r broses o ddatblygu fframwaith, ceir hefyd anghysondeb ac anghydraddoldeb, sy'n cael eu cydnabod fwyfwy, o ran natur gweithgarwch rheoleiddio tai rhwng y sector awdurdodau lleol a'r sector cymdeithasau tai. Ystyrir fwyfwy bod hyn yn amharu ar gyfranogiad a mynediad tenantiaid awdurdodau lleol. Unwaith eto cred Bwrdd Rheoleiddiol Cymru fod ganddo rôl i'w chwarae o ran ysgogi'r drafodaeth hon ynghylch "*rheoleiddio maes*" sy'n fwy cymesur â dulliau o reoleiddio tai mewn mannau eraill yn y DU.
- Mae annibyniaeth statudol a gweithredol cyrff rheoleiddio, archwilio ac arolygu, a'r canfyddiad o'r annibyniaeth hon, yn un o egwyddorion sylfaenol unrhyw fframwaith. Mae'r gallu i wneud dyfarniadau dilyffethair ynghylch ffocws rheoleiddiol a pherfformiad y sector yn rhoi hygyrdd i unrhyw ddull gweithredu a threfniadau adrodd cyhoeddus, ac yn gwella atebolrwydd a thryloywder cenedlaethol a lleol. Cred Bwrdd Rheoleiddiol Cymru nad yw'r trefniadau yng Nghymru yn adlewyrchu datblygiadau nac arferion modern sydd wedi'u cael eu rhoi ar waith yng ngweddill y DU.

Y Prif Adroddiad

Cyflwyniad

Mae'r gwaith a wneir i reoleiddio'r sector Cymdeithasau Tai yng Nghymru, gyda'i ffocws cryf ar denantiaid, a'i werthusiadau rheolaidd o berfformiad trefniadau llywodraethau a rheoli cymdeithasau tai lleol, a'u hyfywedd ariannol, yn darparu llwyfan gwerthfawr i roi sicrwydd annibynnol i denantiaid, benthyccwyr, y llywodraeth a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Caiff gweithgarwch rheoleiddio yng Nghymru ei lywio gan *Y Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru*, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

lyw.cymru/cymdeithasau-tai-sydd-wedi-ucofrestru-yng-nghymru-fframwaith-rheoleiddiol. Mae'r dull o gyflawni'r gwaith rheoleiddio statudol hwn yn seiliedig ar fodel o *hunan-sicrwydd a reoleiddir*. Golyga hyn mai'r gymdeithas sy'n bennaf cyfrifol am sicrhau ei hun yn effeithiol ei fod yn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol ac yn cyrraedd y safonau gofynnol o ran perfformiad ac ansawdd. Mae'r rôl reoleiddio yn cynnwys asesu a chofnodi digonolrwydd ac effeithiolrwydd yr hunan-sicrwydd hwnnw.

Felly, mae hunanwerthusiad cadarn a heriol lleol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn elfen sylfaenol o'r hyn a ddisgwylir gan sefydliadau yn gyffredinol, ynghyd â chwblhau *Datganiad Blynnyddol y Bwrdd o Gydymffurfiaeth*. Mae hwn yn ddatganiad gan y Bwrdd ei fod yn fodlon ei fod yn cyrraedd pob un o'r Safonau Perfformiad neu, os na ellir dangos cydymffurfiaeth yn llawn, y gall roi esboniad a chrynodeb o'r camau y bydd yn eu cymryd i wella cydymffurfiaeth, a gaiff eu harfarnu gan y rheoleiddiwr. Mae'r Datganiad o Gydymffurfiaeth yn un o'r dogfennau pwysicaf a lofnodir gan Fwrdd bob blwyddyn. Mae'r datganiad, a ategir gan ymgysylltiad parhaus y rheoleiddiwr, yn sail i'r dyfarniad rheoleiddiol.

Cyhoeddir dyfarniadau rheoleiddiol blynnyddol ar gyfer pob sefydliad a reoleiddir. Mae'r dyfarniadau hyn yn adlewyrchu barn

y rheoleiddiwr ynghlŷn â pherfformiad y gymdeithas dai a'i gallu i wella, a'i hyfywedd ariannol.

Cred Bwrdd Rheoleiddiol Cymru fod y dulliau gweithredu hyn yn adlewyrchu modelau modern ar gyfer rheoleiddio sy'n datblygu ledled y DU ac yn rhyngwladol. Mae'n dal i fod yn ddull priodol o reoleiddio'r sector cymdeithasau tai yng Nghymru.

Bwrdd Rheoleiddiol Cymru

Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru, a sefydlwyd ar ei ffurf bresennol yn 2016, yn Fwrdd Cyngori i'r Gweinidog. Mae'n fwrdd cyngori cwbl annibynnol, gydag aelodau'r bwrdd yn cael eu penodi drwy'r broses penodiadau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Bwrdd yn cyflawni'r rôl bwysig o oruchwylio'r swyddogaeth reoleiddio honno, ac yn ei gwneud yn bosibl iddo ddefnyddio gwybodaeth reoleiddiol er mwyn helpu i lywio safbwyntiau a chyngor annibynnol ar berfformiad y sector a'r heriau y mae'n eu hwynebu. Mae hefyd yn ystyried datblygiadau rheoleiddiol ledled y DU yn fwy cyffredinol, ynghyd â'u perthnasedd neu eu heffaith ar drefniadau yng Nghymru.

Cefnogir Bwrdd Rheoleiddiol Cymru ei hun gan Grŵp Cyngori ar Reoleiddio. Mae'r Grŵp Cyngori ar Reoleiddio yn fforwm i randdeiliaid sy'n cynnig cyfle i godi a rhannu materion sy'n ymwneud â rheoleiddio a dysgu ohonynt, a rhoi cyngor i Fwrdd Rheoleiddiol Cymru yn unol â hynny. Mae'n gyfrwng pwysig er mwyn helpu i hyrwyddo dull cynhwysol o weithredu, sy'n seiliedig ar egwyddor sylfaenol cyd-reoleiddio ac yn fforwm a groesewir gan Fwrdd Rheoleiddiol Cymru.

Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn cael adroddiadau rheolaidd gan Wasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru (TPAS Cymru) ar ddeall a chlywed barn tenantiaid Cymdeithasau Tai, sy'n sicrhau

bod pryderon a buddiannau tenantiaid yn cael eu hadlewyrchu yn nhrefodaethau Bwrdd Rheoleiddiol Cymru. Mae hon yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth i Fwrdd Rheoleiddiol Cymru a chaiff ei hatgyfnerthu ymhellach drwy roi'r adolygiad thematig presennol o ymgysylltu â thenantiaid ar waith.

Dangosir aelodau Bwrdd Rheoleiddiol Cymru a'r Grŵp Cyngori ar Reoleiddio er gwybodaeth yn Atodiad 1 i'r adroddiad blynyddol hwn.

Diben yr adroddiad hwn

Yr adroddiad hwn i'r Gweinidog yw'r prif ddull i Fwrdd Rheoleiddiol Cymru roi sicrwydd a barn i'r bwrdd ar yr amrywiaeth eang o faterion sy'n ymwneud â rheoleiddio a'r sector sy'n deillio o gyflawni'r fframwaith. Mae'n ymdrin â'r meysydd allweddol canlynol:

- **Adran 1** – Perfformiad a gweithgarwch y rheoleiddiwr;
- **Adran 2** – Datblygu'r fframwaith rheoleiddiol ac ymateb i heriau presennol;
- **Adran 3** – Perfformiad y sector
- **Adran 4** – Datblygu Bwrdd Rheoleiddiol Cymru

Adran 1

Perfformiad a gweithgarwch y rheoleiddiwr

Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn fodlon bod y dull a'r ffocws rheoleiddio presennol yn ailennyn hyder y sector, benthycwyr a rhanddeiliaid eraill yn y fframwaith rheoleiddiol cyffredinol ac yn adfer hygredd y fframwaith hwnnw. Ceir amrywiaeth eang o weithgareddau y bwriedir iddynt roi'r sicrwydd ffurfiol drwy'r dyfarniadau cyhoeddus sy'n ofynnol gan y fframwaith, ochr yn ochr â gwaith cymorth y sector lleol a'r sector cenedlaethol sy'n ymateb ac yn addasu i natur ddynamig barhaus y sector.

Mae hyn yn galonogol iawn ac mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn cydnabod ymrwymiad ac allbwn y tîm rheoleiddio wrth gyflawni'r amrywiaeth eang hon yn llwyddiannus gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael. Wedi dweud hynny, mae'r materion a'r risgiau sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r adnoddau a'r swyddogaethau presennol ar gyfer y swyddogaeth rheoleiddio yn y dyfodol, yn achos pryder mawr i Fwrdd Rheoleiddiol Cymru o hyd.

Mae gweithgareddau rheoleiddio allweddol yn cynnwys;

- Rhoi dyfarniadau rheoleiddiol;
- Ymwneud ag achosion difrifol sy'n achosi pryder rheoleiddiol neu sy'n gofyn am ymyriadau rheoleiddiol;
- Cefnogi'r sector ehangach;
- Sicrhau bod gweithgarwch rheoleiddio yn canolbwyntio ar denantiaid;
- Ymateb i faterion cenedlaethol.

Dyfarniadau rheoleiddiol

Addaswyd y fframwaith rheoleiddiol yn 2017 er mwyn cyflwyno dyfarniadau rheoleiddiol blynyddol ffurfiol ar gyfer pob cymdeithas dai. Cyhoeddir y dyfarniadau hyn ac maent yn adlewyrchu barn y rheoleiddiwr ynglŷn â pherfformiad y gymdeithas dai a'i gallu i wella, o ran llywodraethu a'i rheolaeth a'i hyfywedd ariannol.

Mae pob cymdeithas dai yng Nghymru, a gwmpesir gan y fframwaith, bellach wedi cael dyfarniad ffurfiol a roddwyd yn lleol ac a gyhoeddwyd. Dengys Tabl 1 isod ddadansoddiad o'r dyfarniadau hynny.

Tabl 1: dadansoddiad o ddyfarniadau rheoleiddiol ffurfiol

Categori o ddyfarniad	Dyfarniad ynghylch llywodraethu (gan gynnwys gwasanaethau landlordiaid)	Dyfarniad ynghylch Hyfywedd Ariannol
<p>Safonol – Llywodraethu Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n dod i'r amlwg yn briodol</p> <p>Safonol – Hyfywedd Ariannol Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac yn meddu ar y gallu ariannol i ymdrin â senarios yn briodol</p>	32	35
<p>Cynyddol – Llywodraethu Mae risg, neu gyfuniad o risgiau, yn cynnig her sylweddol i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ac mae angen mwy o oruchwyllo rheoleiddiol</p> <p>Cynyddol – Hyfywedd Ariannol Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ond gallu ariannol cyfyngedig i ymdrin â senarios anffafriol yn effeithiol ac mae angen mwy o oruchwyllo rheoleiddiol</p>	5	3
<p>Ymyriad – Llywodraethu Nid yw risg sylweddol (un risg neu gyfuniad o risgiau) wedi cael ei rheoli'n effeithiol ac mae angen ymyriad rheoleiddiol er mwyn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol</p> <p>Ymyriad – Hyfywedd Ariannol Nid yw'n bodloni'r gofynion o ran hyfywedd ac mae angen ymyriad rheoleiddiol i wella ei allu ariannol</p>	2	1
<p>Camau Statudol – Llywodraethu Nid yw risg sylweddol (un risg neu gyfuniad o risgiau) wedi cael ei rheoli'n effeithiol ac mae angen cymryd camau statudol er mwyn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol</p> <p>Camau Statudol – Hyfywedd Ariannol Nid yw'n bodloni'r gofynion o ran hyfywedd ac mae angen cymryd camau statudol er mwyn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol</p>	0	0
Cyfanswm	39	39

Mae hyn yn rhoi cipolwg ar y sefyllfa bresennol. At hynny, cynhaliwyd pedwar adolygiad ‘yn ystod y flwyddyn’ lle roedd cymdeithasau wedi cydymffurfio â’u Safonau Perfformiad neu wedi gwella eu cydymffurfiaeth â nhw yn sylweddol ac yr ystyriwyd bod dyfarniad diwygiedig yn briodol.

Ar hyn o bryd, mae gan, **saith** cymdeithas ddyfarniadau ansafonol. Maent yn ymrannu fel a ganlyn:

- 3 **cynyddol** – llywodraethu a hyfywedd ariannol
- 2 **cynyddol** – llywodraethu
- 1 **ymyriad** – llywodraethu a hyfywedd ariannol
- 1 **ymyriad** – llywodraethu

Mae’n galonogol iawn i Fwrdd Rheoleiddiol Cymru bod y rhaglen lawn o ddyfarniadau ffurfiol cychwynnol wedi’i chyflawni. Ym marn y bwrdd, maent bellach yn rhan annatod o’r fframwaith a dderbynnir ym mhob rhan o’r sector, ac sydd hefyd yn hanfodol i fenthycwyr, tenantiaid a rhanddeiliaid sydd â buddiant ym mherfformiad sefydliadau neu’r sector yn gyffredinol neu sydd wedi buddsoddi yn eu perfformiad/ei berfformiad.

Maent hefyd yn darparu gwybodaeth ac ysgogiad tryloyw a phwysig i’r naill a’r llall ar gyfer gwelliannau lleol a safbwynt cenedlaethol.

Ystyrir safbwyntiau cychwynnol Bwrdd Rheoleiddiol Cymru ar berfformiad y sector, sy’n seiliedig ar y dyfarniadau, yn Adran 3 o’r adroddiad hwn.

Achosion difrifol ac ymyriadau

Dyfarniadau ymyryd

Mae’r rheoleiddiwr wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o ymyriadau ffurfiol a goruchwyliaeth reoleiddio a gwaith cymorth ychwanegol mewn nifer o gymdeithasau dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Nodwyd materion drwy waith cyd-reoleiddio rhagweithiol a hefyd drwy chwythu’r chwiban.

O’r saith cymdeithas â dyfarniadau ansafonol, mae dwy wedi cael dyfarniadau ymyryd. Mae’r naill yn ymyriad ar gyfer llywodraethu ac mae’r llall yn ymyriad ar gyfer llywodraethu a hyfywedd ariannol. Dyfarniadau ymyryd yw’r rhai mwyaf difrifol, heblaw am gam gweithredu statudol.

Ymhlith y materion allweddol a nodwyd a arweiniodd at ddyfarniadau ymyryd roedd;

- diffyg goruchwyliaeth a rheolaeth gan y bwrdd,
- arweinyddiaeth a diwylliant annigonol,
- diffyg cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol a’r gyfraith,
- prosesau annigonol ar gyfer rheoli trefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid,
- capasiti ariannol annigonol gan gynnwys cynllunio ariannol a sicrhau bod cyllid ar gael er mwyn sicrhau hyfywedd y sefydliad.

Dyfarniadau “Cynyddol”

Mae’r amrywiaeth o faterion a nodwyd o fewn dyfarniadau cynyddol wedi cynnwys arferion llywodraethu gwael megis peidio â chydymffurfio â’r cod llywodraethu a fabwysiadwyd, diffyg cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol, gweithdrefnau rheoli iechyd a diogelwch gwael a phrosesau gwneud penderfyniadau gwael oherwydd diffyg rheolaethau ariannol a rheoli risg yn wael.

Mae cyhoeddi dyfarniad ansafonol yn arwain at oblygiadau sylweddol o ran adnoddau i’r tîm, o ran sicrhau bod y wybodaeth reoleiddiol yn ddigon cadarn i ategu’r dyfarniad a chefnogi a chyflawni’r oruchwyliaeth reoleiddiol ofynnol wrth i’r gymdeithas weithio i wneud y gwelliannau angenrheidiol.

Mae achosion difrifol yn peri risgiau sylweddol i’r sector, tenantiaid a’r rheoleiddiwr ac mae’n rhaid rhoi blaenoriaeth uchel i’r gwaith o’u rheoli. Fodd bynnag, mae rheoli achosion difrifol yn tynnu adnoddau oddi wrth waith reoleiddio arferol. Ar uwch aelodau o staff sydd â’r profiad angenrheidiol i wneud gwaith cymhleth â chanlyniadau difrifol y mae’n effeithio fwyaf.

Rôl Bwrdd Rheoleiddiol Cymru

Fel rhan o'i swyddogaethau, hysbysir Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn rheolaidd am gamau rheoleiddio presennol neu bosibl o dan yr amgylchiadau hyn. Mae Bwrdd Rheoleiddio Cymru yn hyderus bod i'r camau rheoleiddio yr ystyriwyd eu bod yn angenrheidiol ac a gymerwyd ym mhob un o'r amgylchiadau penodol, y ffocws cywir a'u bod yn briodol ac yn gymesur, a'i bod yn amlwg bod gwelliannau i drefniadau llywodraethu a rheoli, a gwelliannau gweithdrefnol, wedi'u gwneud yn y sefydliadau a oedd yn ymwneud â'r rheoleiddiwr yn yr achosion hyn.

Dysgu'r Gwersi

Mae dysgu unrhyw wersi o achosion cymhleth, ar gyfer y sector yn fwy cyffredinol a'r rheoleiddiwr, yn rhan allweddol o'r broses o ysgogi gwelliant. Mae'n dal i fod yn un o egwyddorion arfer da sylfaenol dull rheoleiddio modern. Yn 2018, cyhoeddodd y rheoleiddiwr yr adroddiad **Gwersi a Ddysgwyd** cyntaf a oedd yn ymwneud â *Chymdeithas Tai Cymuned Caerdydd*, a luniwyd mewn cydweithrediad â'r sefydliad a oedd yn destun yr ymyriad. Bu'r adroddiad hwn yn llwyddiannus iawn ac mae wedi cael derbyniad da. Mae'n nodi gwersi ehangach i'r sector a'r rheoleiddiwr, sy'n seiliedig ar y profiad lleol o ymyriad. Mae'n ystyried arwyddion rhybudd posibl ar gyfer gweithgarwch llywodraethu ac yn darparu ar gyfer cyfleoedd cymharu a chyferbynnu ehangach i fyrddau a thimau rheoli ledled Cymru yn y dyfodol.

Drwy gytundeb â'r sector, caiff adroddiadau gwersi a ddysgwyd eu llunio bob tro y ceir dyfarniad cyhoeddedig yn y categori ymyriad neu'r categori camau statudol.

Maent hefyd yn cynnig cyfle yn gyhoeddus i ystyried faint o le sydd i wneud gwelliannau rheoleiddiol o dan amgylchiadau'r achosion difrifol hyn, ac mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn cydnabod bod newidiadau pwysig yn cael eu gwneud i drefniadau rheoleiddio, yn enwedig mewn perthynas â'r canlynol:

- Egluro dulliau o chwythu'r chwiban;
- Atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer asesu risgiau rheoleiddiol;

- Gwella diwylliant ac ymddygiad llywodraethu yn ogystal â strwythurau;
- Ffurfioli dulliau'r Bwrdd o roi sicrwydd;
- Gwella dulliau o reoli trefniadau lechyd a Diogelwch landlordiaid; a
- Gwella cywirdeb data.

Cefnogi'r sector ehangach

Mae defnyddio gwybodaeth sydd ar gael a gafwyd yn naturiol drwy'r broses reoleiddio mewn sefydliadau unigol, er mwyn helpu i roi cymorth a chynghor amserol i'r sector ehangach, yn un o egwyddorion sylfaenol eraill fframwaith rheoleiddiol cadarn.

Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru wedi cydnabod yr amrywiaeth gynyddol o gymorth i'r sector ehangach sydd wedi'i ddarparu gan y rheoleiddiwr, ynghyd â'r mentrau penodol a roddwyd ar waith gan Fwrdd Rheoleiddiol Cymru ei hun. Gyda'i gilydd, mae'r rhain wedi cynnwys:

- **Cyhoeddiadau penodol i'r sector**, gan gynnwys:
 - *Adroddiad Trosolwg o Risg* blynyddol y rheoleiddiwr i'r sector cyfan y bwriedir iddo dynnu sylw at themâu cenedlaethol a themâu sy'n dod i'r amlwg a chefnogi gwaith cynllunio strategol byrddau a thimau gweithredol lleol
 - y cyhoeddiad blynyddol, *Cyfrifon Cynhwysfawr*, ar gyfer y sector (ar y cyd â Cartrefi Cymunedol Cymru) sy'n darparu amrywiaeth o ddata ariannol a data perfformiad cymharol

- **Adolygiadau thematig cenedlaethol.**

Pan ystyrir ei bod yn berthnasol i ddatblygiadau yn lleol neu'n genedlaethol, mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn comisiynu adolygiadau thematig cenedlaethol penodol. Cynhelir yr adolygiadau hyn ar y cyd ac fel arfer maent yn cynnwys y tîm rheoleiddio, rhanddeiliaid allweddol eraill ac arbenigwyr, ac yn arwain at adroddiadau cenedlaethol penodol a chynhyrchion cymorth eraill. Mae adborth i Fwrdd Rheoleiddio Cymru yn awgrymu bod y rhain yn cael derbyniad

da a'u bod yn cyd-fynd â datblygiadau a phryderon cenedlaethol presennol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen darparu adnoddau priodol er mwyn rhoi canfyddiadau'r adolygiadau ar waith yn effeithiol. Hyd yma mae'r adolygiadau thematig hyn wedi ymdrin â'r pynciau canlynol:

- **Gwerth am Arian.** Cyhoeddwyd adroddiad cenedlaethol yn 2017 sydd wedi arwain at lunio cyfres gytûn o fesurau gwerth am arian i'r sector cyfan ar gyfer cymariaethau lleol a chymorth cynllunio, cydnabod manteision dull gwerth am arian effeithiol a'i werth yn ddiwylliannol fel elfen graidd o lywodraethu da yn lleol ym mhob rhan o'r sector a sicrhau lle mwy blaenllaw i werth am arian yn Safonau Perfformiad diwygiedig Llywodraeth Cymru.
- **Llywodraethu.** Roedd yr adolygiad hwn, a gyhoeddwyd yn 2018, yn adlewyrchu barn bendant Bwrdd Rheoleiddiol Cymru bod trefniadau llywodraethu o ansawdd uchel yn sail i sector cymdeithasau tai diogel a llwyddiannus. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar greu darlun manwl o ansawdd presennol trefniadau llywodraethu ym mhob rhan o'r sector a meithrin gwell dealltwriaeth o'r agweddau a'r ymddygiad sy'n ategu llywodraethu da. Yn 2018, cyhoeddodd Bwrdd Rheoleiddiol Cymru ei weledigaeth ei hun ar gyfer llywodraethu da – *Y Pethau lawn*, y bwriadwyd iddi ategu *Cod Llywodraethu* newydd Cartrefi Cymunedol Cymru. Cafodd y cymhorthion llywodraethu hyn dderbyniad da ac maent yn cynnig llwyfannau pwysig ar gyfer gwella trefniadau llywodraethu.
- **Rhoi Tenantiaid wrth Wraidd Rheoleiddio.** Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru bob amser wedi bod yn awyddus i sicrhau bod ei ddull ef, a dull y Rheoleiddiwr, o fynd ati i glywed llais tenantiaid, mor gadarn â phosibl a'i fod yn adlewyrchu realiti'r amgylchedd tai modern. Am y rheswm hwnnw, mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru wedi comisiynu adolygiad, y disgwyli'r iddo gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019,

gyda'r nod o sicrhau y caiff llais tenantiaid ei glywed drwy herio cymdeithasau tai i ailystyried dulliau traddodiadol o ymgysylltu â thenantiaid a datblygu syniadaeth newydd a ffyrdd arloesol ac effeithiol o gynnwys tenantiaid mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Adolygiad strategol uchelgeisiol a lefel uchel yw hwn, sy'n cynnwys pob rhanddeiliad allweddol yng Nghymru, mewn hinsawdd ffafriol iawn ar gyfer ystyried sut i fynd ati i ddeall barn tenantiaid yn well a datblygu ffyrdd ystyrlon o ymgysylltu.

Sicrhau bod gweithgarwch rheoleiddio yn canolbwyntio ar denantiaid

Clywed llais tenantiaid

Mae'r Fframwaith Rheoleiddiol yn cael ei ategu gan ymrwymiad i sicrhau bod tenantiaid wrth wraidd rheoleiddio. Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, mae'r Fframwaith yn nodi'n glir fod disgwyl i Gymdeithasau Tai ddangos bod tenantiaid yn cael eu cynnwys a'u bod yn llywio gwasanaethau a phenderfyniadau a wneir gan gymdeithasau a sut mae'r gwasanaethau a ddarperir o ansawdd uchel ac yn gwella. Felly, mae hon yn agwedd graidd ar waith y rheoleiddiwr a'r trafodaethau ynghylch dyfarniadau.

Felly, mae deall a chlywed barn tenantiaid Cymdeithasau Tai yn agwedd bwysig ar waith y tîm rheoleiddio a Bwrdd Rheoleiddiol Cymru, sy'n sicrhau bod pryderon a buddiannau tenantiaid yn cael eu hadlewyrchu. Er mwyn hwyluso hyn, mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru a'r Tîm Rheoleiddio yn gweithio gyda TPAS Cymru, sy'n defnyddio nifer o ddulliau o ymgysylltu â thenantiaid. Mae'r rhain yn cynnwys casglu barn tenantiaid mewn rhwydweithiau tenantiaid a digwyddiadau, grwpiau ffocws a fforymau ar lefel ranbarthol er mwyn trafod materion penodol. Mae TPAS Cymru hefyd wedi cynnal 'Pwls Tenantiaid' – sef cymuned arolwg lle y gall tenantiaid rhoi eu barn drwy e-bost neu drwy'r post.

Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru a'r rheoleiddiwr yn cyfarfod â TPAS Cymru bob

chwarter er mwyn ystyried tystiolaeth o farn tenantiaid ar faterion â blaenoriaeth a sicrhau y cânt eu cyfleu i'r sector, rheolwyr rheoleiddio a Bwrdd Rheoleiddiol Cymru.

Ymateb i faterion cenedlaethol

Mae agwedd bwysig ar waith y tîm rheoleiddio, a'r gwaith y mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn ei wneud i'w oruchwylio, wedi crisialu o amgylch nifer o ddatblygiadau cenedlaethol allweddol, sy'n cynnwys yn benodol:

i) Trefniadau Iechyd a Diogelwch Landlordiaid

Ysgogwyd y rheoleiddiwr gan y gwersi a ddysgwyd o drychineb Grenfell, ynghyd â phryderon difrifol ynghylch y ffordd y mae trefniadau iechyd a diogelwch yn cael eu llywodraethu, a ddaeth i'r amlwg fel rhan o ymyriad rheoleiddiol yng Nghymru, i'w gwneud yn ofynnol i bob cymdeithas dai yng Nghymru gyflwyno adroddiad sicrwydd llawn ar ei threfniadau iechyd a diogelwch fel landlord.

Roedd hwn yn adolygiad pwysig a alluogodd y Rheoleiddiwr i ddadansoddi'r adroddiadau hyn ar gyfer y sector cyfan a rhoi trosolwg cryno amserol o'r sector cyfan ynghyd ag amrywiaeth eang o argymhellion i gymdeithasau.

Rhoddodd yr argymhellion gyfle i Fyrddau a thimau gweithredol ystyried p'un a yw ein trefniadau presennol yn ddigonol a dysgu o arfer cyfredol yn y sector. Byrddau cymdeithasau sy'n gyfrifol am sicrhau dull cadarn o ymdrin â threfniadau iechyd a diogelwch landlordiaid.

Cafodd yr adroddiad hwn dderbyniad da gan y sector ond, yn bwysicach na hynny, mae wedi llywio gwelliannau i'r trefniadau iechyd a Diogelwch mewn nifer o sefydliadau.

Roedd Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn falch o weld bod Rheolwyr Rheoleiddio hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda chymdeithasau tai unigol er mwyn asesu ansawdd sicrwydd eu Bwrdd o ran trefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid, gan nodi lle mae angen sicrwydd cadarnach, lle y bo hynny'n angenrheidiol. Mae'r dull hwn o ddefnyddio adroddiadau

sicrwydd wedi'u targedu yn un y mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn ei gefnogi ac y mae'n awyddus i'w weld yn cael ei atgynhyrchu ar gyfer meysydd eraill sy'n achosi pryder rheoleiddiol.

ii) Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac adolygiadau annibynnol eraill

Cynhaliodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynlluniad Cenedlaethol *ymchwilliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai* – a chyhoeddodd ei ganfyddiadau ym mis Awst 2017. Rhoddodd Cadeirydd Bwrdd Rheoleiddiol Cymru a gweision sifil, ynghyd ag amrywiaeth o randdeiliaid, dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fel rhan o'r adolygiad.

Daeth adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'r casgliad cyffredinol bod *"llywodraethu a rheoleiddio yn y sector tai yn gweithio yn ddigon da i gymdeithasau tai gael mwy o ymreolaeth"* a bod y *"Dyfarniadau Rheoleiddio newydd yn gam yn y cyfeiriad iawn"*.

Nododd yr adroddiad nifer o argymhellion, yn enwedig ynghylch materion sy'n ymwneud â bod yn agored a thryloywder, y mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru a'r tîm rheoleiddio wedi bod yn ymateb iddynt ac y mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn fodlon eu bod wedi cael eu gweithredu neu eu bod yn rhan o gynlluniau cyflawni parhaus ar gyfer y bwrdd a'r tîm rheoleiddio.

Yn 2018, fel rhan o'r broses barhaus o ddatblygu'r fframwaith a'r gwaith o'i oruchwylio, aeth Bwrdd Rheoleiddiol Cymru ati i gomisiynu ei adolygiad rhanddeiliaid ei hun o'r fframwaith.

Holwyd amrywiaeth eang o Randdeiliaid am effeithiolrwydd y Fframwaith yn gyffredinol a cheisiwyd eu barn ar bob un o'r meysydd allweddol sy'n rhan o'r broses reoleiddio. Unwaith eto roedd Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn falch bod yr adolygiad wedi dod i'r casgliad bod yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol bod y Fframwaith a'i wahanol rannau yn addas at y diben.

iii) Adolygiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)

Yn dilyn penderfyniad pwysig yr ONS i ailddosbarthu cymdeithasau tai yng Nghymru i'r sector cyhoeddus, daeth deddfu i sicrhau'r diwygiadau rheoleiddiol yr oedd eu hangen i alluogi'r ONS i ailddosbarthu'r sector yn ôl i'r sector preifat yn flaenoriaeth.

Roedd y tîm rheoleiddio, gyda chymorth Bwrdd Rheoleiddiol Cymru, yn allweddol wrth helpu i lunio *Deddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018* a ddaeth i rym yng Nghymru ym mis Mehefin 2018.

Mae'r ddeddfwriaeth yn lleihau rheolaethau llywodraeth ganolog a llywodraeth leol dros gymdeithasau tai a galluogodd yr ONS i gyhoeddi y byddai dyledion cymdeithasau tai yng Nghymru yn cael eu dileu o fantolen y sector cyhoeddus ac na fyddai benthycu yn sgorio yn erbyn dyled gyhoeddus yn y dyfodol. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, caiff y trefniadau ariannu presennol ar gyfer cymdeithasau tai eu cynnal, sy'n caniatáu iddynt barhau i ddefnyddio benthyciadau gan y sector preifat i'w galluogi i adeiladu tai cymdeithasol newydd.

iv) Adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy 2019

Ym mis Ebrill 2018, cyhoeddodd y Gweinidog Tai ac Adfywio ar y pryd y byddai adolygiad o'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn cael ei gynnal. Roedd y cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad annibynnol yn eang ei gwmpas ac mae'r adolygiad wedi cael ei reoli drwy amrywiaeth eang o ffrydiau gwaith a oedd yn cynnwys amrywiaeth o sectorau a rhanddeiliaid.

Mae'r tîm rheoli rheoleiddio wedi cymryd rhan yn yr Adolygiad. Cyflwynodd Bwrdd Rheoleiddiol Cymru ei dystiolaeth ei hun i'r adolygiad ym mis Medi 2018.

Bydd Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn gwerthuso'r argymhellion a fydd yn deillio o'r adolygiad, yn ystyried y goblygiadau posibl i'r fframwaith rheoleiddiol a'i swyddogaethau craidd a'r goblygiadau o ran adnoddau a gweithdrefnau ac yn rhoi cyngor i'r Gweinidog fel y bo'n briodol.

Adran 2

Datblygu'r fframwaith rheoleiddiol ac ymateb i heriau presennol

Darparu Adnoddau ar gyfer Gwaith Rheoleiddio

Rôl a manteision swyddogaeth reoleiddio gref

Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru o'r farn bod yr adnoddau rheoleiddiol islaw'r lefel ofynnol sydd ei hangen i barhau i weithredu'r fframwaith presennol yn effeithiol a darparu dull cyffredinol effeithiol o roi sicrwydd i'r Llywodraeth.

Mae'n bosibl y bydd y diffyg hwn o ran adnoddau yn cynyddu'r risg y bydd methiannau llywodraethu yn parhau heb eu nodi a'u hunioni am ormod o amser, a fydd, yn ei dro, yn effeithio ar hyder benthycwyr a'r llywodraeth ac ansawdd gwasanaethau i denantiaid ac yn lleihau gallu Cymdeithas Dai i wneud y defnydd gorau posibl o'i hadnoddau a chyflawni'n unol â pholisi cenedlaethol strategol. Mae swyddogaeth reoleiddio sy'n rhoi llawer o hyder i fenthycwyr yn effeithio'n uniongyrchol ar gyfraddau benthycyca ac, felly, yr adnoddau sydd ar gael yn lleol.

Yn hanesyddol, mae swyddogaethau rheoleiddio ledled y DU nad oes ganddynt ddigon o adnoddau yn dibynnu fwyfwy ar chwythu'r chwiban yn lleol fel dull allweddol o dynnu sylw at fethiannau llywodraethu a rheoli. Bu cynnydd yn nifer yr achosion o chwythu'r chwiban yng Nghymru ac rydym yn pryderu ynghylch y cysylltiad uniongyrchol rhwng y cynnydd hwn a'r ffaith nad oes digon o adnoddau yn cael eu darparu i gyflawni'r swyddogaeth reoleiddio. Mae'r arfer hwn yn anghydnaws â model cyd-reoleiddio a hunangofnodi.

Mae cydberthynas gref rhwng effeithiolrwydd swyddogaeth reoleiddio allanol effeithiol sydd ag adnoddau priodol a pherfformiad y rhai sy'n cael eu rheoleiddio. Mae hyn, yn ei dro, yn effeithio ar allu unrhyw sector i gyflawni blaenoriaethau a pholisïau strategol y llywodraeth.

Mae'r model presennol ar gyfer rheoleiddio'r sector Cymdeithasau Tai, sy'n canolbwyntio ar werthuso trefniadau llywodraethu a threfniadau ariannol, a hyrwyddo gwerth am arian, yn sicrhau cydbwysedd hollbwysig rhwng sicrwydd a gwella. Mae'r model cyd-reoleiddiol presennol, a ategir gan ddyfarniad rheoleiddiol blynyddol a'r gofyniad i ddefnyddio dull hunanwerthuso cadarn gan y Gymdeithas Dai, yn dal i fod yn fodel cadarn, priodol a modern ar gyfer y sector cymdeithasau tai. Mae'n gyson â'r cyfeiriad cyffredinol ar gyfer gweithgarwch rheoleiddio, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae'r dull rheoleiddio a'r ffocws rheoleiddio hyn yn ailennyn hyder y sector, benthycwyr a rhanddeiliaid eraill yn y fframwaith rheoleiddiol cyffredinol ac yn adfer hygrededd y fframwaith hwnnw.

Adnoddau rheoleiddiol

Roedd y dull cyd-reoleiddiol yng Nghymru, pan gafodd ei sefydlu yn dilyn adolygiad Essex yn 2009, yn seiliedig ar reoleiddwyr tra medrus. Gwnaed hyn yn benodol er mwyn helpu i ddarparu ar gyfer cynnal gwerthusiadau lleol credadwy o drefniadau llywodraethu a rheoli ariannol sy'n aml yn gymhleth a chefnogi prosesau mwy rhagweithiol o nodi unrhyw broblemau sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â llywodraethu. Roedd hefyd yn dibynnu ar gyfathrebu agos rhwng y sector a'r rheoleiddiwr ac ymddiriedaeth y naill at y llall.

Ers hynny mae nifer o ffactorau pwysig wedi cael cryn effaith ar yr adnoddau sydd eisoes ar gael;

- Bu gostyngiad cyson a sylweddol yn lefel y sgiliau sector perthnasol a'r cymysgedd o brofiad yn y tîm rheoleiddio;
- O ganlyniad, mae mewnbwn uwch aelodau o staff i ddyfarniadau unigol a'r graddau y maent yn eu goruchwylio wedi lleihau'n sylweddol;

- Mae amrywiaeth eang o swyddogaethau ychwanegol wedi cael eu hymgorffori yn llwyth gwaith cyffredinol y tîm heb ddarparu adnoddau ychwanegol i wneud iawn am hynny;
- Bu cynnydd yn nifer yr achosion o chwythu'n chwiban i'r rheoleiddiwr;
- Mae nifer y methiannau llywodraethu sy'n gofyn am ymyriad rheoleiddiol neu gymorth ychwanegol gryn dipyn yn uwch nag a ragwelwyd.

Mae cymorth ac ymyriadau rheoleiddiol wedi bod yn gyson effeithiol o ran sicrhau gwelliannau ond maent yn defnyddio llawer iawn o adnoddau ac yn cael cryn effaith ar allu'r tîm rheoleiddio i barhau i wneud gwaith cyd-reoleiddio o ansawdd uchel ym mhob rhan o'r sector.

Mae'n bwysig cofio yma yr amcangyfrifir bod rheoli achosion difrifol yn defnyddio rhwng 20% a 25% o holl adnoddau'r tîm ar hyn o bryd. Wrth reswm, mae faint o adnoddau sydd eu hangen yn dibynnu ar y galw a gall arwain at fod hyd at 80-90% o amser uwch aelodau o staff yn cael ei dreulio ar achosion difrifol am gyfnodau hir o amser. Mae hyn, yn ei dro, yn effeithio ar waith y tîm o ddydd i ddydd, gan gynnwys cymorth i aelodau eraill o staff, a meysydd gwaith eraill, am fod angen rhoi'r flaenoriaeth uchaf i reoli achosion difrifol – **o gofio'r risgiau cysylltiedig i enw da a darpariaeth, yn lleol ac ar draws y sector cyfan.**

Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn dal i bryderu bod yr adnoddau sydd angen eu neilltuo ar gyfer yr achosion difrifol hyn, ynghyd â'r angen allweddol i ymateb i faterion megis lechyd a Diogelwch, wedi arwain at sawl achos o oedi hir a pharhaus mewn meysydd hanfodol eraill o waith rheoleiddio.

Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, y trosolwg o risgiau'r sector 2019 sydd heb ei gyhoeddi eto, nid oes fawr ddim ystyriaeth wedi'i rhoi i'r strategaeth ar gyfer rheoleiddio yn y dyfodol ac nid yw Cam 2 y prosiect ar dryloywder data wedi dechrau eto. Nid yw'r

gwaith ar wella'r cyfrifon cynhwysfawr a gweithredu ar yr argymhellion o'r adolygiad o drefniadau llywodraethu wedi symud yn ei flaen mor gyflym â'r disgwyl.

Disgwyliadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cydnabu adolygiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a gynhaliwyd yn 2017, y rôl bwysig y mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn ei chwarae wrth "*ystyried capasiti a sgiliau cyfredol y tîm rheoleiddio, a fydd, yn ysbryd cyd-reoleiddio yn galluogi rhanddeiliaid eraill i graffu ar allu Llywodraeth Cymru i reoleiddio*". Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn deall yr heriau i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â'r adnoddau sydd eisoes ar gael, recriwtio'n allanol a nodi cyfleoedd i sicrhau adnoddau ychwanegol. **Fodd bynnag, mae'r trefniadau presennol yn anghynaliadwy.** Adlewyrchir hyn o ran yr amser sydd ar gael i wneud y gwaith dyfarnu craidd (a'r gymhareb cymysgedd sgiliau sy'n ei ategu) yn ogystal â'r adnoddau i ateb y galwadau cynyddol ar swyddogaethau ychwanegol yn effeithiol – sy'n un o swyddogaethau angenrheidiol y dull rheoleiddio modern cyffredinol.

Mae gan Fwrdd Rheoleiddiol Cymru rôl bwysig i'w chwarae o ran tynnu sylw'r Gweinidog at natur fregus yr adnoddau sydd eisoes ar gael a'r risgiau cynyddol hyn sy'n gysylltiedig â lefelau adnoddau presennol a allai atal blaenoriaethau strategol rhag cael eu cyflawni. Bydd yn ceisio parhau â'r ddeialog honno ag uwch reolwyr o fewn Llywodraeth Cymru ac yn gweithio gyda'r tîm rheoleiddio hefyd i gynyddu'r adnoddau sydd eisoes ar gael. Ar hyn o bryd, mae gan reoleiddwyr eraill sy'n gweithredu yng Nghymru fwy o ymreolaeth wrth fynd i'r afael â heriau sy'n gysylltiedig ag adnoddau, ac oherwydd, ar hyn o bryd, na all y Rheoleiddiwr recriwtio'n allanol, mae hyn yn rhwystro'r gallu i sgiliau a phrofiad penodol helpu i gyflawni'r fframwaith.

Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru wedi croesawu rhai newidiadau arfaethedig i strwythur y tîm rheoleiddio a'r dull o weithredu'r fframwaith. Mae swydd uwch ychwanegol wedi'i chreu ac,

yn y dyfodol, bydd fîm bach yn arwain y gwaith o ymdrin ag achosion difrifol, yn ogystal ag asesiadau llywodraethu a gwaith cysylltiedig.

Er bod y newid hwn i'w groesawu, nid yw Bwrdd Rheoleiddiol Cymru o'r farn bod mater sylfaenol diffyg adnoddau digonol wedi'i ddatrys mewn unrhyw ffordd, yn enwedig yng nghyd-destun yr amgylchedd allanol sy'n newid. Os **na ellir** darparu adnoddau ychwanegol, bydd yn rhaid i Fwrdd Rheoleiddiol Cymru ystyried yr opsiynau ar gyfer lleihau rhywfaint o'r gweithgarwch rheoleiddio presennol yn sylweddol neu roi'r gorau iddo, o bosibl, er mwyn adlewyrchu **ystod gyfyngedig fwy realistig o swyddogaethau.**

Datblygu'r dull rheoleiddio cyffredinol yng Nghymru

Bydd gweithgarwch rheoleiddio yn y dyfodol yn parhau i sicrhau ei fod yn canolbwyntio'n gryf ar faterion llywodraethu a thueddiadau eraill sy'n achosi pryder yn y sector Cymdeithasau Tai, a sicrhau ei fod yn rhoi cymorth i'r sector wrth iddo addasu ac ymateb i heriau allanol a'r amgylchedd polisi sy'n newid y mae'n gweithredu o'i fewn.

Wedi dweud hynny, mae angen i fframweithiau rheoleiddio modern, waeth beth fo'r sector, ystyried datblygiadau a dulliau rheoleiddio mewn mannau eraill yn barhaus, yn ogystal â pha mor berthnasol a chymwys ydynt i'w trefniadau eu hunain.

Cred Bwrdd Rheoleiddiol Cymru fod ganddo rôl i'w chwarae i ysgogi'r trafodaethau hyn, ac mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi rhai safbwyntiau cychwynol i fod yn sail i drafodaeth genedlaethol barhaus ynghylch y canlynol

- Rheoleiddio ar draws y sector Cymdeithasau Tai a'r sector Llywodraeth Leol (Rheoleiddio Maes);
- Gweithgareddau rheoleiddio a darparu adnoddau ar gyfer y rheoleiddiwr/ei ariannu;
- Annibyniaeth y rheoleiddiwr.

a) Rheoleiddio ar draws y sector Cymdeithasau Tai a'r sector Llywodraeth Leol (Rheoleiddio Maes)

Dylai tenantiaid ddisgwyl yr un safon uchel o ran y gwasanaeth y maent yn ei gael a gweithgarwch ymgysylltu, p'un a yw ei landlord yn Gymdeithas Dai neu'n awdurdod lleol. Yn Lloegr a'r Alban, ategir yr egwyddor sylfaenol honno gan system lle mae gwasanaethau tai'r ddau sector yn cael eu rheoleiddio gan un asiantaeth o dan ddull gweithredu cyffredin – rheoleiddio "maes".

Yn yr Alban, mae rheoleiddiwr Tai'r Alban yn gyfrifol am y ddau sector:

- Cymdeithasau Tai – a reoleiddir o dan ei fframwaith ei hun ac a asesir yn erbyn safonau llywodraethu a rheoli, safonau cyllid a safonau'r Siarter Tai Cymdeithasol
- Tai Llywodraeth Leol – a asesir yn erbyn safonau'r Siarter Tai Cymdeithasol fel rhan o ddull asesu risg ar y cyd â rheoleiddwyr statudol eraill o fewn llywodraeth leol, er enghraifft, Audit Scotland, HMle a'r Asiantaeth Arolygu Gwaith Cymdeithasol.

Yn Lloegr yr HCA sy'n rheoleiddio tai Cymdeithasau Tai a llywodraeth leol o dan un set gyffredin o safonau defnyddwyr. Mae'r *Papur Gwyrdd* presennol ar dai yn Lloegr hefyd yn ceisio ystyried opsiynau ar gyfer ymestyn dylanwad rheoleiddiol ymhellach i lywodraeth leol.

Yng Nghymru, mae'r systemau ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau tai yn gwbl annibynnol ar ei gilydd heb fawr ddim rhyngweithio rhwng y ddwy. Caiff Cymdeithasau Tai eu hasesu gan reoleiddwyr Llywodraeth Cymru yn erbyn y Safonau Perfformiad presennol sy'n cwmpasu llywodraethu, cyllid a darparu gwasanaethau gyda ffocws cryf ar sicrhau cyfranogiad tenantiaid ac ymgysylltu â nhw. Caiff tai Llywodraeth Leol eu rheoleiddio fel rhan o gyfrifoldebau ehangach Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) am gynnal Asesiadau Gwella Blynyddol. Caiff unrhyw adolygiad o wasanaethau tai yn benodol, o fewn y cylch

gorchwyl hwnnw, ei bennu yn ôl blaenoriaethau gwella'r cyngor ei hun a phrosesau asesu risg SAC bob blwyddyn.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw safonau perfformiad cenedlaethol sefydledig ar gyfer tai llywodraeth leol y gellir cynllunio neu lywio darpariaeth gwasanaethau lleol neu lunio dyfarniadau rheoleiddiol yn seiliedig arnynt.

Cred Bwrdd Rheoleiddiol Cymru fod anghysondeb ac anghydraddoldeb, sy'n cael eu cydnabod fwyfwy, o ran natur gweithgarwch rheoleiddio tai rhwng y sector awdurdodau lleol a'r sector Cymdeithasau Tai. Ystyir fwyfwy bod hyn yn amharu ar gyfranogiad a mynediad tenantiaid llywodraeth leol.

Cred Bwrdd Rheoleiddiol Cymru fod hwn yn faes pwysig ar gyfer trafodaeth yng Nghymru ynghylch y cysyniadau, yr opsiynau a'r pethau ymarferol sy'n gysylltiedig â dull "maes" neu ddull traws-reoleiddiwr mwy cydgysylltiedig o reoleiddio tai – sy'n fwy cymesur â'r dulliau o reoleiddio tai mewn rhannau eraill o'r DU.

Mae'n bosibl y bydd argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad annibynnol parhaus o'r *Cyflenwad o Dai Fforddiadwy* yng Nghymru hefyd yn gatalydd ar gyfer datblygu syniadaeth ynglŷn â dull 'maes' o reoleiddio tai.

b) Gweithgareddau rheoleiddio a darparu adnoddau ar gyfer y rheoleiddiwr/ei ariannu

Gweithgareddau

Yn gynyddol, mae fframweithiau rheoleiddiol modern mewn gwahanol sectorau ledled y DU yn cael yr adnoddau priodol nid yn unig i lunio dyfarniadau rheoleiddiol, cofnodi ac ymyrryd, ond hefyd i gyflawni swyddogaethau cysylltiedig eraill megis rheoli a chofnodi ymchwil a data/perfformiad cenedlaethol, cronfeydd data arfer da a phyrth ac adroddiadau thematig cenedlaethol – er mwyn gwella eglurder a symleiddio gwybodaeth am berfformiad sectorau a gwella cymorth a phrosesau ysgogi – ochr yn ochr ag agweddau atebolrwydd a sicrwydd. Mae'r swyddogaethau hyn i'w cael yn y dulliau o reoleiddio Cymdeithasau Tai a geir

mewn rhannau eraill o'r DU – lle maent yn gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau gwella a chasglu data eraill.

Mae'n ddiddorol nodi, yn Lloegr, fod papur gwyrdd presennol y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, *A New Deal for Social Housing*, yn gryf o blaid grymuso tenantiaid yn fwy a'i fod yn ystyried bod set genedlaethol newydd o ddangosyddion perfformiad allweddol (DPAau), a reolir gan y rheoleiddiwr tai, yn ddull o hwyluso'r broses rymuso honno. Nid oes y fath fframwaith DPAau cenedlaethol i'w gael yng Nghymru.

Ariannu gwaith rheoleiddio

Fel arfer, mae swyddogaethau rheoleiddio mewn sectorau cyhoeddus yng Nghymru a ledled y DU yn cael cyllid yn uniongyrchol gan lywodraeth ganolog neu o system ffioedd, yn ogystal â chyllid ychwanegol penodol o ffioedd ar gyfer adennill costau ymyrryd – neu gyfuniad o bob un o'r rhain.

Ar gyfer gweithgarwch rheoleiddio Cymdeithasau Tai, mae'r trefniadau canlynol yn bodoli:

- Yng Nghymru, ariennir gweithgarwch rheoleiddio'n gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru;
- Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd, mae gweithgarwch rheoleiddio yn cael ei ariannu'n gyfan gwbl gan Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth Gogledd Iwerddon yn unig;
- Yn Lloegr, cyflwynodd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol system codi ffioedd o fis Hydref ymlaen gyda gweithgarwch rheoleiddio yn cael ei ariannu gan gyfuniad o ffioedd cofrestru, ffioedd asesu blynyddol a chymorth grant ar gyfer costau ymyrryd a gwaith llywodraeth leol. Mae ffioedd yn seiliedig ar drothwyon unedau tai cymdeithasol ac mae ffioedd yn destun proses ymgynghori flynyddol.

Cred Bwrdd Rheoleiddiol Cymru fod dewisiadau pwysig i Lywodraeth Cymru ynghylch natur a gweithrediad y rheoleiddiwr yn y dyfodol. Cred hefyd y bydd angen i

unrhyw drafodaeth ynghylch gweithgareddau yn y dyfodol, a'r adnoddau a'r cymysgeddau sgiliau presennol sydd eu hangen i weithredu'r fframwaith presennol ystyried, o bosibl, yr holl opsiynau sydd ar gael ar gyfer darparu adnoddau, **gan gynnwys y cysyniad o fodel seiliedig ar ffioedd.**

c) Annibyniaeth y rheoleiddiwr

Mae annibyniaeth statudol a gweithredol cyrff rheoleiddio ac archwilio ac arolygu (a'r canfyddiad ohoni) yn un o egwyddorion sylfaenol unrhyw fframwaith. Mae'r gallu i wneud dyfarniadau dilyffethair ynghylch ffocws rheoleiddiol a pherfformiad y sector, a chael eich gweld yn gwneud hynny, yn rhoi hygredded i unrhyw ddull gweithredu a threfniadau adrodd cyhoeddus, ac yn gwella atebolrwydd a thryloywder cenedlaethol a lleol.

Yng Nghymru, mae cyrff rheoleiddio ac archwilio/arolygu megis Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth benodol ac, er eu bod yn cael eu hariannu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru, mae ganddynt drefniadau llywodraethu a gweithredu tryloyw a llinellau adrodd ac atebolrwydd sy'n annibynnol ar lywodraeth ganolog.

Mae gan systemau rheoleiddio Cymdeithasau Tai yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon annibyniaeth ac atebolrwydd sydd wedi'u diffinio'n glir.

Yng Nghymru, y *Gnîp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus* o fewn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio tai. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys polisi tai, gweithrediadau a rheoleiddio. Mae llinellau atebolrwydd a llinellau cyllidebol mewn perthynas â rheoleiddio wedi'u cynnwys o fewn yr adran honno a gallant ymddangos yn fwy aneglur nag mewn manau eraill.

Mae annibyniaeth reoleiddiol a thryloywder atebolrwydd a ffrydiau ariannol yn dal i fod yn fater allweddol ledled y DU. Mae'n ddiddorol nodi, yn Lloegr, fod pwysigrwydd annibyniaeth dryloyw'r rheoleiddiwr wedi cael ei gydnabod yn ddiweddar gan ddeddfwriaeth sy'n galluogi'r

rheoleiddiwr tai i fod yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol ar wahân y tu allan i strwythurau ac atebolrwydd yr Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau ac yn fwy atebol i'r Senedd.

Yng Ngogledd Iwerddon, lle roedd gweithgarwch rheoleiddio tai, yn draddodiadol, yn rhan o'r Adran Gymunedau ehangach, mae pwysigrwydd cynyddol tryloywder ac annibyniaeth wedi'i gydnabod ac mae rheoleiddio bellach yn swyddogaeth led-annibynnol, sydd wedi'i gwahanu'n gliriach oddi wrth bolisi a gweithrediadau tai.

Ymddengys bellach fod y trefniadau yng Nghymru ar ôl datblygiadau mewn rhannau eraill o'r DU a chred Bwrdd Rheoleiddiol Cymru fod angen trafod ac ystyried y trefniadau annibyniaeth presennol ar gyfer rheoleiddio tai yng Nghymru ymhellach, fel cymhariaeth â threfniadau rheoleiddiol eraill yng Nghymru, a chan gydnabod y duedd newydd i geisio gwella tryloywder ac annibyniaeth, ac eglurder cyfrifyddu ac ariannu, mewn perthynas â gweithgarwch rheoleiddio'r sector cyhoeddus a sectorau eraill. Byddai hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun unrhyw drafodaethau ynghylch system sy'n seiliedig ar ffioedd a'r angen i 'glustnodi' arian.

Adran 3

Perfformiad y sector

Mae'r adran hon o'r adroddiad blynyddol yn cynnwys dansoddiad lefel uchel ac yn nodi themâu cyffredin sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â pherfformiad y sector, sy'n seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd drwy'r broses reoleiddio.

Mae'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma i ddadansoddi dyfarniadau rheoleiddiol ffurfiol (Gweler tabl 1) – sy'n cwmpasu'r sector Cymdeithasau Tai a reoleiddir cyfan yng Nghymru – yn awgrymu bod gan y rhan fwyaf o'r sector drefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol effeithiol a'i fod yn hyfyw, ar y cyfan, a bod ganddo drefniadau cadarn ar gyfer darparu gwasanaethau i denantiaid a defnyddwyr gwasanaethau.

Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, ceir gormod o achosion o fethiannau llywodraethu o hyd mewn rhannau o'r sector sydd wedi arwain at naill ai ymyriad ffurfiol neu risg reoleiddiol uwch, neu amrywiaeth eang o ymwneud a chymorth rheoleiddiol ychwanegol. Gall llawer o'r rhai sy'n cael mewnbwn rheoleiddiol ychwanegol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd. Er bod hyn yn arwydd cadarnhaol bod trefniadau cyd-reoleiddio yn gweithio'n dda, nid yw'n golygu bod modd creu darlun allanol cywir o'r ffordd y mae amser rheoleiddwyr yn cael ei dreulio am nad yw'r achosion hyn yn cael eu cyhoeddi.

Allan o'r 39 o Gymdeithasau Tai sydd wedi cael dyfarniad ffurfiol hyd yma, sef i bob pwrpas y sector a reoleiddir cyfan, penderfynwyd bod angen mwy o weithgarwch rheoleiddio neu ymyriad ffurfiol yn arwain at ddyfarniad andwyol mewn perthynas â saith sefydliad.

Ar gyfer sector a reoleiddir bach, cred Bwrdd Rheoleiddiol Cymru fod y gyfran hon yn destun pryder.

Mae'r sefyllfa hon yn cael ei gwaethygu, yn rhannol, am fod parhau i nodi heriau'n gynnar yn lleol a chymorth ymatebol gan

y rheoleiddiwr yn un o lwyfannau craidd y dull cyd-reoleiddio yng Nghymru ac, yn ddiau, mae gwaith ataliol ymlaen llaw yn ffactor sy'n lleihau'r potensial ar gyfer dyfarniadau ansafonol pellach.

Nododd yr ymarferion gwersi a ddysgwyd a roddwyd ar waith fel rhan o'r gwaith rheoleiddio cyffredinol yn gyson lle mae ymyriadau wedi bod yn angenrheidiol gydag arferion llywodraethu a rheoli gwael yn cael eu nodi fel y ffactor mwyaf cyffredin sy'n codi dro ar ôl tro, yn arbennig;

- Ansawdd y sicrwydd ynglŷn â pherfformiad a roddwyd i'r bwrdd anweithredol ac a dderbyniwyd ganddo a'r diffyg fframweithiau sicrwydd bwrdd ffurfiol;
- Yr orddibyniaeth ar ddata anghywir neu ddiffygiol;
- Yr orddibyniaeth ar sicrwydd archwilio mewnlod nad oedd yn gadarn ac na chafodd ei herio;
- Diwylliant a hunanfodlonrwydd sefydliadol;
- Ymatebion sefydliadol gwael i'r pryderon rheoleiddiol.

Mae'r rhain yn dal i fod yn bryderon allweddol i Fwrdd Rheoleiddiol Cymru. Mae'r sector a Cartrefi Cymunedol Cymru yn cydnabod y pryderon hyn. Mae *Cod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru*, a lansiwyd yn 2018, yn cyfleu set o egwyddorion ac arfer a argymhellir er mwyn cefnogi arferion llywodraethu a rheoli effeithiol. Dylid ystyried bod y newid tuag at ffocws ar ddiwyllianau sefydliadol yn hytrach na phrosesau yn gam cadarnhaol i fynd i'r afael â rhai o'r themâu cyffredin a nodwyd uchod ac mae'n cydnabod bod y cyfrifoldeb am lywio trefniadau llywodraethu priodol a chadarn yn nwylo pob cymdeithas.

Mae hyn, ochr yn ochr â chyhoeddiad ategol Bwrdd Rheoleiddiol Cymru ei hun sy'n cynnwys ei weledigaeth ar gyfer llywodraethu

da, *Y Pethau lawn*, a gyhoeddwyd yn 2018, yn cynnig llwyfannau ar gyfer gwella trefniadau llywodraethu, a allai fod yn bwysig, os buddsoddir ynddynt yn lleol.

At hynny, wrth gwrs, mae gweithgarwch rheoleiddio parhaus ym mhob rhan o'r sector a'r dyfarniadau ffurfiol, yn parhau i dynnu sylw at heriau i'r sector wrth addasu ac ymateb i faterion cenedlaethol a lleol, ochr yn ochr â themâu cyffredin sy'n dod i'r amlwg ac a fydd yn gofyn yn gyson am drefniadau llywodraethu lleol cadarn ac ymwybyddiaeth reoleiddiol.

Bydd Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn awyddus iawn i sicrhau bod gweithgarwch rheoleiddio yn y dyfodol yn parhau i ganolbwyntio'n gryf ar y materion llywodraethu hyn a thueddiadau eraill sy'n achosi pryder yn y sector, gan sicrhau bod y swyddogaeth reoleiddio yn rhoi cymorth amserol i'r sector wrth iddo addasu ac ymateb i heriau allanol a'r amgylchedd polisi sy'n newid y mae'n gweithredu o'i fewn.

Adran 4

Datblygu Bwrdd Rheoleiddiol Cymru

Ochr yn ochr â'r oruchwyliaeth a'r ymwneud â'r gweithgareddau rheoleiddio a nodwyd yn yr adroddiad hwn, bu Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn awyddus i barhau i wella ei broffil a chynyddu ei weithgarwch ymgysylltu â'r sector, tenantiaid a rhanddeiliaid yn y sector – yn ogystal â pharhau i ddatblygu a gwella trefniadau llywodraethu a rheoli Bwrdd Rheoleiddiol Cymru ei hun.

Mae hyn wedi cynnwys, er enghraifft:

- Y Cadeirydd yn mynd i amrywiaeth o ddigwyddiadau cenedlaethol a lleol i'r sector, yn eu cadeirio ac yn siarad ynddynt;
- Y bwrdd yn mynd i ddigwyddiadau allweddol lle roedd ganddo bresenoldeb gweledol cryf;
- Y cadeirydd yn ysgrifennu cyhoeddiadau ar dai ac erthyglau ar faterion sy'n ymwneud â llywodraethu a rheoleiddio neu'n cyfrannu atynt yn rheolaidd;
- Pob un o gyfarfodydd Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn cael eu cynnal ar safleoedd Cymdeithasau Tai, gan roi cyfle i fwrdd a staff y gymdeithas ei hun ddangos mentrau lleol a thrafod materion a phynciau cyfoes â Bwrdd Rheoleiddiol Cymru;
- Y Bwrdd yn cynnal ei adolygiad ei hun o ganfyddiadau gwahanol randdeiliaid ohoni;
- Dosbarthu llythyr personol gan gadeirydd Bwrdd Rheoleiddiol Cymru, yn dilyn pob cyfarfod o'r bwrdd, sy'n nodi trafodaethau a phenderfyniadau allweddol y bwrdd;
- Cyflwyno uwchgyfarfod a gynhelir ddwywaith y flwyddyn rhwng Bwrdd Rheoleiddiol Cymru a bwrdd Cartrefi Cymunedol Cymru, er mwyn rhannu safbwyntiau a chytuno ar feysydd lle y gallent gydweithio;
- Sefydlu *Grŵp Arwain Agweddau*, sy'n cynnwys cymysgedd o unigolion profiadol o amrywiaeth eang o gefndiroedd. Bydd y grŵp yn rhoi syniadaeth a chyngor strategol i Fwrdd Rheoleiddiol Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru wrth gynllunio dull rheoleiddio'r dyfodol, ac ystyriaethau polisi ehangach;
- Yn unol â chyngor da i'r sector, mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru wedi mabwysiadu ei *Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd* ei hun, sy'n ei alluogi i fonitro yn fwy effeithiol y sicrwydd a roddir gan y rheoleiddiwr ynglŷn â'r ffordd y caiff y fframwaith rheoleiddiol ei weithredu a helpu i fonitro ei allbwn a'i drefniadau ei hun; a
- Yn 2019, bydd Bwrdd Rheoleiddiol Cymru hefyd yn comisiynu ei adolygiad ei hun o anghenion presennol Bwrdd Rheoleiddiol Cymru o ran sgiliau a datblygu er mwyn helpu i wella a mireinio trefniadau llywodraethu'r bwrdd.

Atodiad 1

Aelodau Bwrdd Rheoleiddiol Cymru: 2018/19 – gan gynnwys yr aelodau hynny a adawodd y Bwrdd yn 2018

- Helen White (Cadeirydd) [01/02/16 – Presennol]
- Bob Smith [01/02/16 – Presennol]
- Doug Elliott [01/02/16 – Presennol]
- Jane Mudd [01/09/18 – Presennol]
- Kevin Lawrence [01/09/18 – Presennol]
- Ceri Victory-Rowe [01/02/16 – 31/01/19]
- David Roberts [01/02/16 – 31/01/19]
- Ron Dougan [01/02/16 – 30/06/18]
- Claire Russell-Griffiths [01/02/16 – 31/03/18]

Y Grŵp Cynghori ar Reoleiddio

Cadeirir y Grŵp Cynghori ar Reoleiddio gan aelod o Fwrdd Rheoleiddiol Cymru, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r cyrff canlynol:

- Cartrefi Cymunedol Cymru a chynrychiolwyr yr aelodau
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
- Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru (TPAS Cymru)
- Cynrychiolwyr benthycwyr
- Tai Pawb
- Sefydliad Tai Siartredig Cymru
- Shelter Cymru
- Y tîm rheoleiddio tai